CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

THE READING AGENCY | Dathlu creadigrwydd | Celebrating creativity | CREATE

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Taflen weithgaredd ...Ac Rwy'n Clywed Dreigiau

# Crëwch eich draig eich hun!

## Beth fydd ei angen arnoch chi:

- 1 x carton ŵy 12-cwpan
- 1 x 2 gwpan ŵy o garton arall wedi'u cysylltu â'i gilydd
- Papur/cerdyn crefft lliw (tua 3 x tudalen A4)
- Paent lliw acrylig a brwsh paent neu beniau ffelt
- Pen ffelt neu feiro du
- Siswrn
- Pren mesur
- Tâp gludiog a/neu lud PVA



## Cyfarwyddiadau:

1. Gan ddefnyddio'r siswrn, torrwch y caead oddi ar y carton wyau 12 cwpan — bydd y rhan gyda'r cwpanau ŵy ar frig ceg y ddraig a'r caead gwastad fydd gwaelod y geg.
2. Ailgysylltwch y rhan uchaf i'r rhan waelod yn y cefn yn unig gyda thâp gludiog, fel y gall ceg eich draig agor a chau. Awgrym: Defnyddiwch bensil i wneud dau dwll yng nghefn y ddraig — yna gallwch symud ceg y ddraig gyda'ch bysedd.
3. Cydiwch mewn dau ddarn o bapur crefft a defnyddiwch bensil i dynnu siâp eich adenydd. Yna torrwch y rhain allan. Awgrym: Tynnwch lun a thorrwch eich adain gyntaf ac yna defnyddiwch honno fel templed i dorri siâp yr ail adain.
4. Gludwch/tapiwch eich adenydd i bob ochr y ddraig.
5. Nawr, gyda'r carton ŵy 2 gwpan, tynnwch lygaid gyda'r beiro du.
6. Defnyddiwch eich glud/tâp i lynu'r carton 2 gwpan ar ben ceg y ddraig fel llygaid.
7. Torrwch betryal 10cm (hyd) wrth 3cm (lled) allan o bapur neu gerdyn a thorrwch siâp igam-ogam ar hyd un o'r ymylon byr.
8. Tapiwch/gludwch y darn hwn o bapur cerdyn y tu mewn i geg y ddraig i greu tafod.
9. Defnyddiwch eich pen ffelt i greu ffroenau ar eich draig.
10. Mwynhewch eich draig drwy gydol yr haf!